# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYSAG**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD MERCHER, 10FED MEHEFIN, 2015**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda - Swyddfeydd y Cyngor Caernarfon**

Pwynt Cyswllt

**Glynda O'Brien**

**(01341) 424301**

**GlyndaOBrien@gwynedd.gov.uk**

(Dosbarthwyd: 27:05:15)

# CYSAG

## AELODAETH (7)

## Plaid Cymru (3)

Y Cynghorwyr

E. Selwyn Griffiths    Gweno Glyn    Annwen Daniels

## Annibynnol (2)

Y Cynghorwyr

Thomas G. Ellis    Jean Forsyth

## Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

Llywarch Bowen Jones    Sedd Wag

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor – Y Cynghorwyr Dilwyn Morgan a Eric M. Jones

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill**

| | |
|---|---|
| Disgwyl Enwebiad | Yr Eglwys Fethodistaidd |
| Ruth Davies | Undeb Bedyddwyr Cymru |
| Dr W Gwyn Lewis | Eglwys Bresbyteraidd Cymru |
| Canon Parchedig Robert Townsend | Yr Eglwys yng Nghymru |
| Cynrig Hughes | Yr Annibynnwyr |
| Eirian Bradley Roberts | Yr Eglwys Gatholig |

**Athrawon**

| | |
|---|---|
| Alwen Watkin | ASCL |
| Noel Dyer | UCAC |
| Miriam A. Amlyn | NAS/UWT |
| Euron Hughes | NUT |
| Mrs Lisabeth Roberts | NAHT |

**Aelodau Cyfetholedig**

Parchedig Aled Davies
Gwyn Rhydderch
Rheinallt Thomas

# R H A G L E N

1. **GWEDDI**

2. **ETHOL CADEIRYDD**

   I ethol Cadeirydd am y flwyddyn 2015/16.

3. **ETHOL IS-GADEIRYDD**

   I ethol Is-gadeirydd am y flwyddyn 2015/16.

4. **YMDDIHEURIADAU**

   I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

5. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

6. **MATERION BRYS**

   I nodi unrhyw eitema sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

7. **COFNODION** 1 - 6

   Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2015.

8. **ADRODDIAD GAN YMGYNGHORYDD HER GWE**

   I dderbyn adroddiad / cyflwyniad gan Miss Bethan James ar y canlynol:

   (a) Addoli ar y Cyd
   (b) Datblygu Llythrennedd a Rhifedd mewn Addysg Grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 3
   (c) Diweddariad ar ymgynghoriad Yr Athro Donaldson ar Gwricwlwm i Gymru

## 9. HUNAN ARFARNU YSGOLION 7 - 22

(a) I dderbyn, er gwybodaeth, ffurflen monitro adroddiadau Hunan Arfarniadau ysgolion ar gyfer Gwanwyn 2015 – Haf 2015.

(b) I gyflwyno crynodeb o Hunan Arfarniad yr ysgolion canlynol:

(i) Ysgol Coed Mawr
(ii) Ysgol Bro Plennydd
(iii) Ysgol Tanygrisiau
(iv) Ysgol Yr Eifl
(v) Ysgol Ffridd y Llyn
(vi) Ysgol Felinheli

## 10. CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU 23 - 33

(a) I dderbyn cofnodion drafft cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2015 yn Sir Benfro.

(b) I nodi bod cyfarfod nesaf y Gymdeithas uchod i'w gynnal ar 25 Mehefin 2015 yn Sir Fflint.

# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 11.02.15

**Yn Bresennol:**

**Y Cynghorydd Selwyn Griffiths - Cadeirydd**

**Aelodau Cyngor Gwynedd :** Y Cynghorwyr Tom Ellis, Gweno Glyn,

**Cristnogion a chrefyddau eraill:** Mr Wyn Myles Meredith (Yr Eglwys Fethodistaidd), Dr W Gwyn Lewis (Eglwys Bresbyteraidd Cymru), Parch. Canon Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru), Mr Cynrig Ellis Hughes (Yr Annibynwyr)

**Athrawon:** Mrs Miriam Amlyn (NAS/UWT)

**Swyddogion:** Mr John Blake (Clerc CYSAG dros dro) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**GwE:** Miss Bethan James (Ymgynghorydd Her GwE)

**Hefyd yn bresennol:** Miss Manon Davies (Ysgol Crud y Werin)
Miss Catrin Roberts (Myfyrwraig ar brofiad gwaith)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Jean Forsyth, Llywarch Bowen Jones, Mrs Ruth Davies (Undeb Bedyddwyr Cymru), Mr Noel Dyer (UCAC) a Mrs Alwen Watkin (ASCL).

**1. GWEDDI**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Selwyn Griffiths.

**2. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

(a) Croesawyd:

(i) Dr W Gwyn Lewis, cynrychiolydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru, i'w gyfarfod cyntaf o CYSAG
(ii) Miss Menna Davies, Cydlynydd Addysg Grefyddol, Ysgol Crud y Werin
(iii) Miss Catrin Roberts, myfyrwraig ar brofiad gwaith o Brifysgol Bangor.

(b) Cyfeiriwyd at farwolaeth y Cynghorydd Huw Edwards a oedd yn aelod selog o'r Pwyllgor hwn. Talwyd teyrnged iddo am ei waith a'i ymroddiad i CYSAG dros y blynyddoedd diwethaf a gofynnwyd i'r Swyddog Cefnogi Aelodau anfon gair o gydymdeimlad ar ran yr Aelodau at ei weddw a'i deulu yn eu colled drist.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Parchedig Ganon Robert Townsend fuddiant personol yn Eitem 6 (b) (ii) - Hunan Arfarniad Ysgol Dyffryn Ardudwy oherwydd bo ei lysferch yn athrawes yn yr ysgol honno.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2014 fel rhai cywir.

## 5. MATER BRYS

(Nid oedd yr eitem isod wedi ei chynnwys ar y Rhaglen ond cytunodd y Cadeirydd i'w hystyried dan Adran 100 (4)(b), Deddf Llywodraeth Leol 1972).

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Ysgrifennydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn gwahodd CYSAG Gwynedd i enwebu aelod newydd i Bwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ogystal ag enwebiad i'r swydd Is-gadeirydd y Pwyllgor Gwaith. Nodwyd bod yr enwebiadau i'w dychwelyd erbyn 1 Mawrth 2015.

Yn ei habsenoldeb o'r cyfarfod, awgrymwyd enw Mrs Ruth Davies ar gyfer yr enwebiad fel aelod newydd i'r Pwyllgor Gwaith ac fe addawodd Miss Bethan James i gysylltu â hi i ganfod os yw'n barod i dderbyn yr enwebiad.

**Penderfynwyd: (a) Enwebu:**

**(i) Mrs Ruth Davies fel aelod newydd i'r Pwyllgor Gwaith, os yw yn fodlon derbyn yr enwebiad**
**(ii) Mrs Mary Parry (Caerfyrddin) ar gyfer y swydd o Is-gadeirydd y Pwyllgor Gwaith.**

## 6. HUNAN ARFARNIADAU YSGOLION

(a) Tywysodd Clerc CYSAG yr Aelodau drwy daflen a gyflwynwyd yn nodi crynodeb o ganfyddiadau ysgolion gan dynnu sylw bo 5 ysgol gynradd wedi eu harolygu gan ESTYN yn ystod tymor yr Hydref 2015, gyda 2 wedi eu harolygu ym mis Rhagfyr 2014. Rhagwelir y bydd 4 ysgol arall yn ogystal ag 1 ysgol uwchradd yn cael eu harolygu yn ystod y tymor hwn sef Ysgolion Coed Mawr, Dolgellau, Bro Plennydd, Tanygrisiau ac Ysgol Uwchradd Dyffryn Nantlle. Cyfeiriwyd at ddyfyniadau wedi eu cymryd o adroddiadau ESTYN o dan y bennawd gofal, cymorth ac arweiniad.

Nodwyd nad oes gofyn ar ESTYN i roi barn ar ansawdd am addoli ar y cyd a gofynnir i ysgolion wneud hynny yn eu hunan arfarniadau. Ychydig o wybodaeth felly a geir am addysg grefyddol o'r fframwaith arolygu sy'n golygu mwy o gyfrifoldeb ar CYSAG i gael darlun cyflawn drwy hunan arfarniadau ysgolion o'r hyn sy'n digwydd mewn ysgolion.

Ategwyd yr uchod gan Ymgynghorydd Her GwE a bod angen i ESTYN gynnwys y cymalau am ddatblygiad ysbrybol moesol cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Erfyniwyd ar Aelodau sy'n cydweithio ag ysgolion i sicrhau bo cyfeiriad at y cymalau hyn yn hunanarfniadau ysgolion.

Atgoffwyd Aelodau o'r drefn newydd o arolygu ac mai ychydig o wythnosau o rybudd a geir ysgolion cyn yr arolygiad.

(b) Tywyswyd yr Aelodau drwy hunan arfarniadau Ysgolion Y Gorlan, Dyffryn Ardudwy, Y Garreg a Bro Tryweryn gan gyfeirio at y tri cwestiwn allweddol sef:

1. Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

2. Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?
3. Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

(c) Nodwyd bod ysgolion yn derbyn arweiniad o'r hyn i'w gyflwyno yn unol â'r canllawiau perthnasol a thynnwyd sylw penodol bod 3 o'r ysgolion uchod wedi cynnwys blwch ychwanegol sy'n cyfeirio at sgiliau medrau llythrennedd, rhifedd TGCh a meddwl. Tynnwyd sylw ymhellach bo un o'r ysgolion wedi dyfarnu rhagorol ar gyfer addoli ar y cyd ac yn sgil hyn awgrymwyd y dylai'r Pwyllgor hwn ymweld â'r ysgol honno i gael profiad o'u hymarferion da.

(ch) Ychwanegodd yr Ymgynghorydd Her GwE bo CYSAGau eraill yn cynnal eu Cyfarfodydd CYSAG mewn ysgolion er mwyn cyfoethogi eu profiadau am yr hyn sy'n digwydd mewn ysgolion yng nghyd-destun Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. O safbwynt yr hunan arfarniadau, bo athrawon yn parhau i gymysgu'r wybodaeth am safonau a'r ddarpariaeth. Eglurwyd bo safonau yn ymwneud a gwaith y disgyblion a'r ddarpariaeth yn ymwneud â pha mor dda mae athrawon yn cynllunio'r gwersi. Atgoffwyd yr Aelodau bo Adroddiad Blynyddol CYSAG yn arfarnu ansawdd yr hunan arfarniadau i fod yn rhagweithiol wrth ddatblygu ysgolion. Roedd oddeutu 60% o hunan arfarniadau y llynedd yn ymateb i ofynion CYSAG sef yn cyfleu gwybodaeth am safonau Addyg Grefyddol fel amlinellir ym maes llafur CYTUN a chydnabuwyd nad oedd rhai ysgolion yn cyfeirio o gwbl at Addysg Grefyddol a bod angen i'w hatgoffa o'r angen i wneud hyn.

(d) Ymfalchiwyd bo ysgolion yn manteisio ar wahodd offeiriadau a gweinidogion i'r ysgolion a braf ydoedd nodi bo'r Parchedig Iwan Llywelyn wedi cyflwyno bedydd hefo dosbarthiadau Derbyn a Meithrin.

(dd) Derbyniwyd eglurhad am y cynllun "Agor y Llyfr" gan y Parch. Canon Robert Townsend sydd yn cael ei weithredu gan Gymdeithas y Beibl ac yn ddull o adrodd straeon o'r Beibl gan unigolion lleyg. Roedd y cynllun wedi ehangu yn Esgobaeth Bangor ac yn cael ei hyrwyddo i fudiadau eciwmenaidd hefyd gan obeithio y gwelir fwy o ddefnydd ohono i'r dyfodol.

**PENDERFYNWYD: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr arolygiadau a'r hunan arfarniadau.**

**(b) Cynnal cyfarfod nesaf o CYSAG Gwynedd yn Ysgol Bro Tryweryn, Frongoch, Y Bala, fel bo modd bod yn rhan o weithgareddau addoli ar y cyd, pe byddai'r ysgol yn caniatáu.**

**7. CYFLWYNIADAU**

**(a)** Croesawyd Miss Menna Davies, Cydlynydd Addysg Grefyddol, Ysgol Crud y Werin, i'r cyfarfod i amlinellu'r camau a'r gwaith wnaed ganddi yn yr ysgol yn dilyn ei phenodiad fel Cydlynydd i ymateb i argymhellion Arolygwyr ESTYN yn dilyn eu harolygiad, a oedd yn nodi …"yng Nghyfnod Allweddol 2, nid oes digon o gyfleoedd i'r disgyblion i ddatblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth mewn Addysg Grefyddol".

Nododd Miss Davies ei bod, mewn ymgynghoriad â'r pennaeth, wedi llunio cynllun gweithredu gan sicrhau trefniadau monitro ffurfiol pob hanner tymor. Lluniwyd pecyn arweiniad ar gyfer athrawon yr ysgol ac arweiniwyd cyfarfodydd staff er mwyn cyflwyno'r pecyn a thempled gynllunio sy'n rhoi ffocws i'r tri sgil craidd yn Addysg Grefyddol. Bu i Ymgynghorydd Her GwE ymweld â'r ysgol a sylweddolwyd nad oedd y cynlluniau ddigon manwl a bod angen mwy o bwyslais ar Addysg Grefyddol. Penodwyd Llywodraethwraig dynodedig er mwyn cefnogi'r a herio'r ysgol wrth ymateb i'r argymhellion. Yn nhymor y

Gwanwyn 2015, addaswyd y cynllun gweithredu mewn ymateb i ddarganfyddiadau gweithgareddau monitro tymor yr Hydref a pharatowyd cynlluniau gwaith ar gyfer CA2 ar gyfer themâu'r tymor sydd yn sicrhau ymateb i ddarganfyddiadau'r gweithgareddau craffu. Cydnabuwyd bod y ddarpariaeth yn well oherwydd:

- Bo'r cynlluniau gwaith yn cyfeirio'n glir at y sgiliau a'r ystod yr ymdrinnir â hwy
- Bo'r cynlluniau gwaith yn sicrhau dilyniant a chynnydd clir o ddosbarth Blwyddyn 3 a 4 i ddosbarth Blwyddyn 5
- Bo'r cynlluniau gwaith yn rhoi arweiniad pendant i'r athrawon o'r hyn a ddisgwylir ei weithredu yn y dosbarth, o ddilyniant ac addasrwydd her y gweithgareddau a'r hyn ddisgwylir fel tystiolaeth yng ngwaith y disgyblion

O ganlyniad i'r uchod, nodwyd bod rhagolygon cynnar o samplau gwaith y plant yn dangos bod disgyblion yn gwneud defnydd o'u gwybodaeth a dealltwriaeth o Addysg Grefyddol yn ogystal â'u medrau megis llythrennedd, yn llwyddiannus.

I gloi, rhoddwyd cyfle i Aelodau ofyn cwestiynau ac ymatebwyd iddynt yn briodol.

**Diolchwyd i Miss Menna Davies am ei chyflwyniad gan nodi gwerthfawrogiad CYSAG i'r gwaith a wnaed ganddi yn yr ysgol.**

**(b)** Derbyniwyd adroddiad gan Ysgol Uwchradd Tywyn yn nodi'r hyn a weithredir yn yr ysgol o safbwynt cynnydd mewn Addysg Grefyddol a oedd yn eu galluogi i ddarparu ystod o dasgau oedd yn rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ystyried cwestiynau crefyddol a moesol gan ddechrau dod i gasgliadau rhesymegol. Un o'r thema a ddilynwyd oedd dioddefaint gan edrych ar adnoddau penodol Archwilio Materion mewn Addysg Grefyddol. Yn ogystal, edrychwyd ar gynnal seremonïau i groesawu Aelodau i mewn i grefydd gan ystyried nifer o gwestiynau moesol ynghylch ymrwymo yn y modd yma. Rhoddwyd pwyslais ar gyd-weithio a chefnogi unigolion er mwyn galluogi nifer o fyfyrwyr i lwyddo yn y pwnc ar ddiwedd CA3 - 2013-2014.

**Penderfynwyd:** **Derbyn, nodi a diolch am yr adroddiad.**

**8. DIWEDDARIAD O'R CWRICWLWM CENEDLAETHOL**

(a) Adroddodd yr Ymgynghorydd Her GwE ei fod yn arferiad i CYSAG Gwynedd gynllunio, adolygu, ac ail-lunio ei faes llafur CYTÛN pob 5 mlynedd ond fe gytunwyd i oedi hyd nes y byddir yn gweld beth a ddeillir o'r cwricwlwm newydd cenedlaethol gan y Gweinidog Addysg.

(b) Dyfynnodd Ymgynghorydd Her GwE o araith ddiweddar y Gweinidog Addysg, i'r proffesiwn addysg yng Nghymru, i gydweithio ag ef i ddatblygu cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru. Fe nododd y Gweinidog Addysg y byddai'r proffesiwn yn allweddol i gyflwyno'r cwricwlwm newydd pan fydd yr Athro Graham Donaldson wedi cyflwyno ei adroddiad ar ddiwedd y mis. Soniwyd am ei gynlluniau ar gyfer "bargen newydd" i'r gweithlu i drawsnewid datblygiad proffesiynol er mwyn eu helpu i gyflwyno'r cwricwlwm newydd a sicrhau safonau uwch yn y dosbarth, e.e. cymhwyster Meistr, deunyddiau dysgu proffesiynol.

Meddai'r Gweinidog: "Mae cwricwlwm Cenedlaethol 1988 wedi cyflawni diben pwysig iawn ond y neges sy'n deillio o adolygiad Graham Donaldson yw bod angen cwricwlwm newydd. Gwyddom y bydd angen amser i ffurfio a chyflwyno cwricwlwm newydd, ond rwyf innau a'r Athro Donaldson yn glir bod yn rhaid i'r proffesiwn addysgu fod yn ganolog

i'r broses o'i ddatblygu a'i weithredu. Nawr mae'n bryd cael trafodaeth fawr a hanfodol arall am addysg yng Nghymru ynghyd newid y cwricwlwm. Mae angen trafod beth fydd ein pobl ifanc yn ei ddysgu dros y degawdau nesaf, a sut. Mae'r agenda ddiwygio'n heriol ac yn dibynnu ar allu gweithwyr proffesiynol i'w chyflawni. Rydym yn gofyn llawer gan y proffesiwn, ond rydym yn benderfynol o weithio mewn partneriaeth â nhw. Mae'r dystiolaeth ryngwladol yn gwbl glir. Ni allwn sicrhau safonau uwch drwy wario. Mae'r newidiadau sydd ar y gweill yn gofyn am broffesiwn mwy medrus a defnyddio'r arferion gorau'n gyson. Rhaid i ni ddefnyddio'r dystiolaeth ddiweddaraf a pharhau i anelu at y gorau – o un gweithiwr i'r llall, ac o ysgol i ysgol".

(c) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y sylwadau canlynol:

- o safbwynt cydweithio gydag Ynys Môn ar y maes llafur, bo'r 6 awdurdod y Gogledd eisoes yn comisiynu'r un corff sef GwE i ymgymryd â gwaith ym maes addysg a chredwyd nad oedd gan yr awdurdodau'r capasiti i ymgymryd â'r dasg i ddatblygu cwricwlwm eu hunain a hyderir y byddir yn ymddiried yn y CYSAGau. O ran Cymdeithas CYSAGau Cymru, ei fod yn awyddus i weld Cymru gyfan yn dilyn fframwaith cenedlaethol tebyg iawn o ran Addysg Grefyddol.
- Hyderir y bydd yr Athro Donaldson yn cyfeirio at y samplau o ddisgyblion a gyfwelwyd na roddodd argraff dda o Addysg Grefyddol iddo oherwydd yn sicr nid yw hyn yn adlewyrchu tystiolaeth o fodlonrwydd plant yng Ngwynedd
- Pryder o ran amseriad cyflwyno'r cwricwlwm newydd oherwydd bod ysgolion yn aros am newidiadau yn fanyleb TGAU ac mewn rhai ardaloedd yn effeithio ar Lefel A. Byddai hyn yn ychwanegu at lwyth gwaith athrawon ac yn waith enfawr. Mewn ymateb, cadarnhaodd yr Ymgynghorydd Her GwE nad oedd arweiniad wedi ei dderbyn o ran amserlennu ac atgoffwyd bod disgwyliad statudol ar CYSAG Gwynedd o ran darpariaeth Addysg Grefyddol CA4 ac mai penderfyniad ysgolion fyddai amserlennu hynny
- Pryder o safbwynt ysgolion eu bod yn mynd i golli pynciau a hynny o fis Medi ymlaen.

**Penderfynwyd: Derbyn y sylwadau uchod gan nodi'r angen i fod yn barod am y newidiadau i'r dyfodol.**

## 9. CYNLLUN GWEITHREDU CYSAG 2014-15

(a) Cyflwynwyd y cynllun gweithredu ar gyfer CYSAG Gwynedd am y flwyddyn 2014-15 a gytunwyd arno yng nghyfarfod diwethaf CYSAG ar gyfer trefniadau monitro.

(b) Tywyswyd yr Aelodau drwy'r deilliannau ac i ba raddau y maent yn cael effaith ar:

1. Datblygu Arweinyddiaeth dda ym maes Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd
2. Cau'r bwlch rhwng cyflawniadau bechgyn a merched yn TGAU
3. Diweddaru gwybodaeth athrawon Addysg Grefyddol, e.e. canllawiau Llywodraeth Cymru, ESTYN
4. Hwyluso Addoli ar y Cyd o ansawdd

(b) O safbwynt addoli ar y cyd awgrymwyd mewn cyfarfod blaenorol bod CYSAG yn ymweld ag ysgolion i fynychu sesiynau addoli ar y cyd a chyfeiriwyd at y cynnig blaenorol yn Eitem 6 (b) uchod bo CYSAG yn cynnal ei gyfarfod nesaf mewn ysgol ac y byddai modd cymryd y cyfle i arsylwi gwasanaeth addoli ar y cyd yr ysgol honno.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cynllun gweithredu.**

**10. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU**

**(a) Cofnodion cyfarfod diwethaf**

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod diwethaf o’r Gymdeithas a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2014 yn Nhorfaen ac eglurwyd ar y drefn mewn ymateb i ymholiad o ran cyfieithiad Cymraeg o’r cofnodion ond bo’r Pwyllgor Gwaith wedi cytuno i anfon cofnodion dwyieithog drafft i’r dyfodol.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi’r uchod.**

**(b) Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf y Gymdeithas ar 6 Mawrth 2015 ym Mhort Talbot.**

**11. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG GWYNEDD 2013/14**

Cyflwynwyd copi terfynol o adroddiad blynyddol CYSAG Gwynedd i’r Aelodau.

**Penderfynwyd: Derbyn, nodi a diolch i’r Ymgynghorydd Her GwE am ei gwaith yn narpariaeth yr adroddiad blynyddol.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00 pm a daeth i ben am 3.45 pm

**CADEIRYDD**

**Monitro Gwanwyn 2015 – Haf 2015**
Gofynnir i bob ysgol ddarparu adroddiad hunan-arfarnu ar safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd ar gyfer CYSAG Gwynedd. Ceisir sicrhau fod y rhaglen monitro yn cyd-fynd â rhaglen arolygu Estyn. Mae'r adroddiadau a dderbynnir ynghlwm ynghyd â chrynodeb o'r canfyddiadau yn y tablau isod:

| Ysgolion Uwchradd | Adroddiad HA | Canfyddiad Ysgol | | | Adroddiad Estyn | Dyddiad | Canfyddiad Estyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | CA1 | CA2 | Addoli ar y cyd | | | |
| **Gwanwyn 2015** | | | | | | | |
| Dyffryn Nantlle | | | | | **31/3/15 ✓** | **26/1/15** | **Digonol** |
| Y Gader | | | | | **8/5/15 ✓** | **2/3/15** | **Digonol** |
| | | | | | | | |

| Ysgolion Cynradd | Adroddiad HA | Canfyddiadau Ysgol | | | Adroddiad Estyn | Dyddiad | Canfyddiad Estyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | CA1 | CA2 | Addoli ar y cyd | | | |
| **Hydref 2014** | | | | | | | |
| Yr Eifl | ✓ | Da | Da | Da | ✓ | **12/14** | **Da** |
| Felinheli | ✓ | Da | Da | Da | **13/2/15 ✓** | **12/14** | **Da** |
| **Gwanwyn 2015** | | | | | | | |
| Coed Mawr | ✓ | Da | Da | Da | **17/3/15 ✓** | **12/1/15** | **Da** |
| Dolgellau | Pennaeth newydd, bydd yn paratoi HA ar gyfer y cyfarfod nesaf. | | | | **24/3/15 ✓** | **19/1/15** | **Anfoddhaol** |
| Bro Plenydd | ✓ | Da | Da | Da | **9/4/15 ✓** | **2/2/15** | **Da** |
| Tanygrisiau | ✓ | Da | Da | Da | **16/4/15 ✓** | **9/2/15** | **Da** |
| Ffridd y Llyn | ✓ | Da | Da | Da | **30/4/15 ✓** | **23/2/15** | **Da** |
| Y Traeth | | | | | **Allan 22/5/15** | **16/3/15** | |
| **Haf 2015** | | | | | | | |
| Llanaelhaearn | | | | | **Allan 2/7/15** | **27/4/15** | |
| Llanrug | | | | | **Allan 1/8/15** | **1/6/15** | |
| Llanelltyd | | | | | | | |
| Hirael | | | | | | | |

| Ysgolion Arbennig | Adroddiad HA | Canfyddiad Ysgol | | | Adroddiad Estyn | Dyddiad | Canfyddiad Estyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | CA1 | CA2 | Addoli ar y cyd | | | |
| | | | | | | | |

Yn ystod y cyfnod tymor y Gwanwyn 2015 cafodd 6 o ysgolion cynradd, 2 ysgol uwchradd ac 0 ysgol arbennig eu harolygu gan Estyn. Rhagwelir y bydd 4 ysgol arall yn ogystal ag 0 ysgol uwchradd yn cael eu harolygu yn ystod y tymor presennol.

Mae'r dyfyniadau a ganlyn wedi'u cymryd o adroddiadau arolygu Estyn ac yn cyfeirio at Addysg Grefyddol (annhebygol), addoli ar y cyd, datblygiad moesol ac ysbrydol ond hefyd agweddau eraill megis addysg bersonol, diwylliannol a chymdeithasol:

**Sylwadau Estyn:**

**Yr Eifl (Rhagfyr 2014)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Trwy ystod eang a diddorol o brofiadau, caiff datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei hyrwyddo'n llwyddiannus. Mae'r pwyslais cryf a roddir ar feithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch at eraill yn cyfrannu'n effeithiol at greu ymdeimlad o gymdeithas wâr yn yr ysgol. Mae sesiynau addoli ar y cyd yn cyfrannu'n dda tuag at ddatblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion.

**Felinheli (Rhagfyr 2014)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol iawn. Trwy waith y gwahanol grwpiau, mae'r ysgol yn sicrhau cyfleoedd da i ddisgyblion gyfrannu at les yr ysgol a'r pentref. Enghraifft o hyn yw'r modd mae'r ysgol wedi dylanwadu ar hylendid cymunedol. Trwy gynnwys cyfleoedd i fyfyrio yn rheolaidd mewn gwasanaethau boreol ysgol gyfan a'r gwasanaethau dosbarth, mae'r ysgol yn annog datblygiad ysbrydol y disgyblion yn effeithiol. Mae'r athrawon yn atgyfnerthu hyn yn y sesiynau amser cylch.

**Tymor Gwanwyn 2015**

**Ysgol Dyffryn Nantlle (Ionawr 2015)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae gofal, cymorth ac arweiniad yn un o gryfderau'r ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer iechyd a lles yn dda a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn gadarn. Mae'r sesiynau boreol yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fyfyrio. Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn cynnig profiadau diddorol a pherthnasol i ddisgyblion.

**Coed Mawr (Ionawr 2015)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn dangos gofal ac yn darparu arweiniad pwrpasol i'r holl ddisgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i ddatblygu gwerthoedd moesol, emosiynol a chymdeithasol y disgyblion, sydd wedi eu sefydlu'n gadarn ac sy'n hyrwyddo ymddygiad da. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol disgyblion yn briodol.

**Dolgellau (Ionawr 2015)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Anfoddhaol**

Mae awyrgylch gofalgar a chyfeillgar yn yr ysgol, sy'n rhoi pwyslais ar les disgyblion. Mae perthynas waith dda yn bodoli rhwng y rhan fwyaf o'r disgyblion ac oedolion ac mae hyn yn ychwanegu at yr ethos cynhwysol yr ysgol. Mae'r staff yn hyrwyddo ymddygiad da. Mae'r ysgol wedi sefydlu system wobrwyo sy'n annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda nifer o wasanaethau arbenigol megis therapydd iaith, gwasanaethau cymdeithasol, nyrs yr ysgol a'r heddwas lleol er mwyn gwella lles disgyblion.

Trwy wasanaethau rheolaidd a chyfleoedd i fyfyrio, mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac maent yn destun pryder difrifol.

**Bro Plenydd (Chwefror 2015)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**
Mae'r ysgol yn darparu amryw o gyfleoedd gwerthfawr sy'n cyfoethogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol, a diwylliannol y disgyblion. Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd gwerthoedd fel gonestrwydd a pharch er mwyn gweithio'n llwyddiannus fel cymuned.

**Tanygrisiau (Chwefror 2015)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**
Mae staff yn meithrin datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol drwy gynnal gwasanaethau cyd-addoli rheolaidd a phrofiadau priodol eraill. Mae'r ysgol yn rhan bwysig o'r gymuned ac yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion gefnogi digwyddiadau diwylliannol a chymdeithasol lleol. Mae hyn yn datblygu rôl y disgyblion yn effeithiol fel dinasyddion cyfrifol yn y gymuned ehangach. Enghraifft o hyn yw'r ymweliadau cyson â chanolfan yr henoed i gynnig adloniant, rhannu cynnyrch lleol adeg y diolchgarwch a chyfle i glywed hanesion lleol gan yr aelodau.

**Ffridd y Llyn (Chwefror 2015)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**
Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Mae cyfnodau addoli ar y cyd dyddiol, ynghyd â'r cyfleoedd i ddysgu am gredoau pobl o wahanol ddiwylliannau, yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r cyfleoedd sydd i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau 'Ffrindiau Ffeind' yn hyrwyddo perthynas glòs rhwng disgyblion o wahanol oedran yn effeithiol.

**Y Gader (Ionawr 2015)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**
Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o'r tiwtoriaid dosbarth yn sicrhau bod addoli ar y cyd yn digwydd yn rheolaidd yn y sesiynau cofrestru boreol. Mae'r ysgol yn darparu ystod o gyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo iechyd a lles disgyblion, gan gynnwys bwyta ac yfed yn iach, trwy amrediad eang o weithgareddau allgyrsiol. Mae'r ysgol yn cynllunio'n briodol i gyflwyno rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol drwy'r pynciau a thrwy ddefnyddio siaradwyr o asiantaethau allanol.

**Y Traeth (Mawrth 2015)**
**Adroddiad heb ei chyhoeddi hyd yma.**

**<u>Tymor yr Haf 2015</u>**
Llanaelhaearn (Ebrill 2015)
Llanrug (Mehefin 2015)
Llanelltyd (Mehefin 2015)
Hirael (Mehefin 2015)

**Enw'r Ysgol: Babanod Coedmawr**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

- Dros y dair mlynedd diwethaf mae 100% o'r disgyblion wedi ymgyrraedd a deilliant 5+ ym maes PCh.
- Oherwydd y datblygiad o " bartneriaid siarad" mae mwyafrif y disgyblion yn hyderus wrth ofyn cwestiynau yn ymwneud â phobl ac ystyr moesol/ysbrydol storiau, fodd bynnag nid ydynt yn codi materion crefyddol dyfnach.
- Wrth graffu ar lyfrau gwelir bod sgiliau llythrennedd disgyblion yn y maes yn datblygu'n briodol drwy waith ysgrifennu estynedig.
- Mae gwaith yr holl ddisgyblion yn dangos amrywiaeth diwylliannau eraill sy'n cael eu hastudio o fewn y themau.
- Wrth arsylwi gwersi Ysgol Deina, gwelwyd llawer o'r plant yn trafod eu hemosiynau ac yn dangos empathi. Maent yn deall yn iawn beth sydd yn iawn/yn deg.
- Mae'r rhan fwyaf yn gwneud penderfyniadau cywir o ran ymddygiad tuag at eraill.
- Yn ardaloedd y Cyfnod Sylfaen mae disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o'r maes drwy ddefnyddio eu dychymyg, trwy chwarae rôl a thrwy chwarae gemau.

**Materion i gael sylw**

- Sgiliau disgyblion i allu myfyrio ar destunau, i drafod a dod i benderfyniad.
- Sgiliau disgyblion i drafod credoau a'r hyn sydd yn bwysig iddynt o ran moesoldeb a derbyn nad yw safbwynt pawb yn mynd i fod yr un fath.
- Sgiliau disgyblion ar frig yr ysgol i drafod materion crefyddol yn ddyfnach mewn themau sy'n addas i wneud hynny.

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

- Yn ôl arolwg diweddaraf Estyn: Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i ddatblygu gwerthoedd moesol, emosiynol a chymdeithasol y disgyblion.
- Wrth ddilyn "Pobl, Credoau a Chwestiynau" ac egwyddorion Ysgol Deina, mae'r sgiliau ym maes Datblygiad Personol a Chymdeithasol a rhai agweddau yn Natblygiad Moesol, Ysbrydol a Lles yn rhan o gynlluniau dyddiol yr ysgol. Mae hyn yn sylfaen i ethos yr ysgol.
- Mae'r staff gyfan wedi derbyn hyfforddiant ar egwyddorion "Ysgol Deina"
- Wrth graffu ar lyfrau gwelir bod cynllunio ar gyfer datblygu sgiliau yn y maes yn cael ei wneud yn drawsgwricwlaidd. Ym maes GDB, trwy bwysleisio ar ein diwylliant a'n traddodiadau ni yng Nghymru, ein hardal leol , ein teuluoedd a'n ffrindau. Fodd bynnag, prin yw'r astudiaethau o gredoau, oni bai am Gristionogaeth.
- Wrth edrych ar y gweithgareddau a gynlluniwyd yn y maes ar gyfer ardaloedd y Cyfnod Sylfaen, gwelir bod y disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth trwy ddefnyddio eu dychymyg, trwy chwarae rôl a thrwy chwarae gemau sydd i gyd yn arwain at rannu syniadau.
- Defnyddir llyfrau yn sail i drafodaethau ar safbwyntiau, ystyr moesol neu ysbrydol y stori a'r dewisiadau a wneir oddi fewn i'r stori.

**Materion i gael sylw**

- Cynllunio i ddatblygu ymwybyddiaeth o gwahanol gredoau a sut mae'r credoau hynny'n effeithio ar ffordd o fyw.

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?**

| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** √ | **Nac ydy** |
|---|---|---|

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Cynhelir cyfnod o weddi/ganu ysbrydol yn feunyddiol ym mhob dosbarth.
- Cynhelir gwasanaeth ysgol gyfan yn wythnosol sydd yn hyrwyddo datblygiad moesol ac ysbrydol y disgyblion.
- Mae pob dosbarth yn gyfrifol am ddarparu a chyflwyno cyflwyniad moesol ac ysbrydol unwaith y tymor.
- Cynhelir cyflwyniad moesol ac ysbrydol i rieni yn y capel lleol i ddathlu Diolchgarwch.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Datblygu cyswllt gyda gwasanaeth Eglwysi Bangor – gwasnaethau Agor y Llyfr.

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: R Jones (Pennaeth Safle)

Dyddiad:

**Enw'r Ysgol: Bro Plenydd**

| Addysg Grefyddol |
|---|

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**
Mae safonau mewn Addysg Grefyddol yn dda yn yr ysgol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae bron pob disgybl yn gallu gofyn cwestiynau am y byd o'i gwmpas, ei brofiadau ei hun ac agweddau ar grefydd ac yn awgrymu rhai atebion. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion erbyn diwedd y Cam Sylfaen yn gallu dwyn i gof ac egluro rhai credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol sylfaenol y maent wedi bod yn astudio. Maent yn gallu awgrymu sut mae credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol yn bwysig i rai pobl. Gall y rhan fwyaf o'r plant siarad yn syml am eu teimladau, eu barn a'u gweithrediadau eu hunain a rhai pobl eraill. Maent yn gallu defnyddio geirfa grefyddol syml yn addas.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol dau mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu trafod eu hymatebion eu hunain ac eraill i gwestiynau am fywyd, y byd o'u cwmpas ac am grefydd. Maent yn gallu disgrifio a chychwyn esbonio y credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol a ymchwilir ganddynt. Er enghraifft egluro pwysigrwydd dysgeidiaeth arweinwyr crefyddol fel Gandhi, Martin Luther King, Y Fam Teresa a Malcom X.  Maent yn gallu cyfeirio yn benodol at y ffyrdd y bydd yr agweddau yma yn effeithio ar fywydau credinwyr. Er enghraifft egluro pam fod y capel yn le arbennig i Gristnogion, esbonio pwysigrwydd arferion gwyliau crefyddol megis y Nadolig a'r Pasg. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hefyd yn dechrau nodi'r gwahaniaethau a thebygrwydd rhwng crefyddau. Er enghraifft egluro y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng y capel, y mosg a'r deml Hindwaidd. Maent yn gallu esbonio mewn termau syml sut mae eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain yn wahanol i rai pobl eraill. Maent yn adnabod rhai symbolau crefyddol ac yn gallu defnyddio ystod o eiriau crefyddol. Er enghraifft adnabod symbolau Y Pasg.

**Materion i gael sylw**
Er fod disgyblion erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 yn cyflawni yn dda yn y pwnc mae angen sicrhau ymestyn y disgyblion mwyaf medrus a galluog i gyrraedd lefelau uwch yn y pwnc drwy sicrhau tasgau gwahaniaethol i'w galluogi i gyrraedd hynny.

| Rhagorol | | Da | * | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**
Rhoddir amser teilwng i Addysg Grefyddol ym mhob dosbarth yn yr ysgol ac fe'i addysgir yn rheolaidd. Mae gan yr athrawon wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r gofynion mewn Addysg Grefyddol ac maent ym manteisio ar ddatblygu medrau plant yn y pwnc yn effeithiol. Mae'r athrawon yn cynllunio profiadau dysgu cyfoethog sy'n ennyn diddordeb a chwilfrydedd bron pob un o'r disgyblion mewn Addysg Grefyddol. Mae gan yr ysgol lyfrau ymchwil ar wahanol grefyddau ar gyfer y disgyblion a gwneir defnydd o'r we fyd eang i chwilio am wybodaeth. Bydd defnydd yn cael ei wneud o asiantaethau allanol megis Coleg y Bala a'r mosg ym Mangor a'r gweinidog lleol i eangu profiadau y disgyblion. Mae gan yr ysgol hefyd amrediad o arteffactau crefyddau gwahanol i gyfoethogi y dysgu. Bydd disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dysgu drwy storïau a phrofiadau chwarae wedi eu cynllunio yn ofalus. Mae gwaith disgyblion yn dangos amrywiaeth o dasgau symbylus ar agweddau gwahanol o Addysg Grefyddol megis

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol. Gwelir hefyd dystiolaeth yn llyfrau'r plant o ymdrin a chwestiynau sylfaenol bywyd a chyfleoedd i ymateb yn bersonol i faterion ysbrydol. Mae gwaith plant yn CA2 dangos fod pob agwedd o Addysg Grefyddol yn cael sylw ddwy waith dros gyfnod o bedair blynedd ac fod gwaith ar Bobl, Credoau a Chwestiynau yn cael sylw rheolaidd yn y Cyfnod Sylfaen dros gyfnod o bedair blynedd. | | | | | | | |
| **Materion i gael sylw**<br>Datblygu ymhellach eto ac ymestyn y cyfleoedd ar gyfer ymdrin a chwestiynau sylfaenol bywyd a chynnig profiadau ysbrydol. | | | | | | | |
| **Rhagorol** | | **Da** | * | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

## Addoli ar y Cyd

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | |
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy *** | **Nac ydy** |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94) | | |
| **Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**<br>Mae addoli ar y cyd yn digwydd yn ddyddiol yn yr ysgol mewn amrywiaeth o ffyrdd – addoli ysgol gyfan ac addoli dosbarthiadau unigol. Ceir amrywiaeth o ddulliau addoli megis gwrando ar stori neu gyflwyniad, cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhannau arweiniol a chynllunio gwasanaethau eu hunain, canu torfol a chymryd rhannau gweithredol megis actio yng ngwasanaethau pobl eraill.<br>Bydd Nia o'r Gwasanaeth Ysgolion Sul yn dod i fewn unwaith y tymor i gynnal cyd addoliad mewn ffordd hwyliog. Bydd yr athrawon i gyd yn eu tro yn cynnal y cyd addoliad a bydd pob aelod o staff yn ogystal a'r plant yn bresennol mewn addoliad torfol ysgol gyfan er rhoi parch a statws i gyd addoli.<br>Mewn sesiynau addoli dosbarth rhoddir pwyslais ar ddisgyblion yn cynllunio eu cyfraniadau ac yn gweddïo yn fyrfyfyr. Defnyddir amryw o ddulliau megis llonyddu a straeon sy'n annog y disgyblion i gymryd rhan ysbrydol drwy gau llygaid a dychmygu bod yn rhan o'r digwyddiadau. | | |
| **Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**<br>Parhau i sicrhau yr un safon darpariaeth a sicrhau defnydd o'r un dulliau a phrofiadau mewn addoli dosbarthiadau unigol traws ysgol. | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagorol** | | **Da** | * | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

Llofnod: Carys Hughes (Pennaeth)

Dyddiad: Mai 19eg, 2015

**Enw'r Ysgol: Tanygrisiau**

## Addysg Grefyddol

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

Mae safonau Addysg grefyddol yn dda.

Credir hyn oherwydd:

- Mae craffu ar waith y disgyblion yn dangos safon dda o ran gwybodaeth bynciol a datblygiad o flwyddyn i flwyddyn o ran sgiliau'r disgyblion.
- Mae'r disgyblion yn ymateb i'r maes mewn amrywiaeth o ffurfiau gan gynnwys llythrennedd, celf a thechnoleg ac yn llwyddo i gynhyrchu gwaith da wrth gysylltu'r pwnc gyda'r pynciau eraill yma.
- Mae'r disgwyliadau o ran yr hyn mae'r disgyblion yn ei gynhyrchu yn uchel. Mae llythrennedd o safon dda yn cael ei amlygu yn y pwnc.

**Materion i gael sylw**

Parhau gyda'r safon uchel wrth ystyried y posibilrwydd o newid yn y sefyllfa staffio yn y dyfodol.

| Rhagorol | | Da | X | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

Mae gan yr ysgol drefn pendant i'r gwersi addysg grefyddol yn y CS a CA2. Ceir gwersi wythnosol, cynlluniau addas sydd yn dangos datblygiad o flwyddyn i flwyddyn, asesu rheolaidd a athrawes sy'n berchen ar adnabyddiaeth da o'r maes. Mae hyn yn arwain at ddisgyblion sydd yn cynhyrchu gwaith o safon dda. Cadarnheir hyn gan arsylwadau gwersi ble mae'r addysgu a dysgu yn dda. Mae'r plant yn dangos diddordeb yn y maes ac yn ymroi yn effeithiol i'r gwaith.

**Materion i gael sylw**

Parhau i blethu y Fframwaith Rhif a Llythrennedd i'r gweithgareddau Addysg Grefyddol drwy'r ysgol.

| Rhagorol | | Da | x | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

| **Addoli ar y Cyd** |
|---|

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** | **Nac ydy** |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94) | | |
| **Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**<br>Cyfnodau addoli ar y cyd wythnosol.<br>Moesau a pharch yn cael eu hybu yn y gwasanaethau.<br>Pob dosbarth yn arwain y gwasanaeth yn eu tro. | | |
| **Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**<br><br>**Cryfhau cyswllt ag arweinwyr credfyddol yn yr ardal.** | | |

| **Rhagorol** | | **Da** | x | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: *G T Jones* (Pennaeth)

Dyddiad: 20/4/15

**Enw'r Ysgol: Ysgol Yr Eifl** **Cyfeiriad: Trefor, Caernarfon, Gwynedd LL54 5LL**

**Addysg Grefyddol**

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion, asesiadau athrawon a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol; Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009).

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**
Mae'r mwyafrif lethol y plant yn cyflawni yn dda, ac wedi cywain gwybodaeth yngl?n ag amrywiaeth o grefyddau gan gynnwys Hindwiaeth, Mwslemiaeth, Cristnogaeth a Bwdaeth.

**Safonau medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl**
TGCh – Da
Sgiliau Meddwl - Da
Llafaredd a Darllen - Da
Rhifedd – Da
Ysgol yn blaenoriaethu ysgrifennu ar hyn o bryd

**Materion i gael sylw**
Mae'r Cynllun Thematig yn y broses o gael ei ail-wampio. Mae'n bwysig fod y plant yn parhau i ddatblygu yn eu gwybodaeth am grefyddau a'u sgiliau ymholi.

| Rhagorol | | Da | √ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol, Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009.

**Yr addysgu mewn addysg grefyddol: cynllunio ac amrediad o strategaethau**
Mae'r plant yn derbyn 1 awr bob wythnos o AG ffurfiol. Mae gwybodaeth pynciol da gan yr athrawes ac mae'r ddarpariaeth yn dda.

**Darpariaeth ar gyfer y medrau: llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl**
Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion ymchwilio mewn llyfrau a thros y wê. Anogir y plant i ddatblygu sgiliau llafaredd yn y gwasanaethau.

**Materion i gael sylw**
Ystyried sut y gellir ychwanegu at y defnydd TG wrth ddarparu ar gyfer Addysg Grefyddol.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

**Addoli ar y Cyd**

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** √ | **Nac ydy** |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94), Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2012). | | |
| **Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**<br><br>Caiff yr holl ddisgyblion gyfleoedd i addoli ar y cyd yn rheolaidd/ | | |
| **Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**<br><br>Mae angen ail ystyried y cylch gwasanaethau oherwydd mae agweddau wedi dyddio bellach. | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

Llofnod: Cai Larsen (Pennaeth)

Dydddiad: 20fed Ionawr 2015

**Enw'r Ysgol: Ffridd y Llyn**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

Yn ystod y tymor hwn, gwnaed gwaith yn CA2 ar y cwestiwn mawr 'A oes heddwch?' Roedd y disgyblion yn chwilfrydig iawn, yn llawn syniadau a barn, yn enwedig disgyblion blwyddyn 6. Cafwyd trafodaethau grŵp aeddfed iawn, gyda'r plant yn cyflwyno eu syniadau yn hyderus o flaen weddill y dosbarth. Trafodwyd amrywiol fannau sy'n denu pererinion Cristnogol – roedd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu cynnig rhesymau am fynd ar bererindod. Defnyddiwyd pecyn @ebol i gyflwyno'r gwaith gyda chyflwyniad am Ynys Enlli a Chowbois Rhos Botwnnog. Trefnwyd taith i Lan-llyn fel rhan o'r thema, fel bod y disgyblion yn gallu ysgrifennu am eu taith arbennig eu hunain. Canolbwyntiwyd ar bwrpas yr ymweliad, sut oeddynt yn teimlo wrth baratoi, ac wrth fynd ar y daith, a beth wnaethant ddysgu o'r profiad. Teimlwyd bod rhai o ddisgyblion B4 yn ddihyder wrth drafod eu teimladau, ond bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn hyderus iawn.

Cyfrifoldebau a'n dyletswydd ni i ofalu am ein gilydd ac ar ôl ein byd oedd prif ffocws B2 a 3 yn ystod y tymor, a hynny wrth drafod y cwestiwn mawr 'sut le ddylai'r byd fod?' Casglwyd llawer o wybodaeth am Martin Luther King, a'i freuddwyd o gael byd heb ragfarn. Gwelwyd gwaith o safon uchel wrth i'r disgyblion greu posteri 'sut fyd yw'r byd delfrydol'. Roedd gan y rhan fwyaf o'r disgyblion syniadau a barn bendant ynglŷn â beth i'w gynnwys. Roedd hyn yn amlygu ei hun wrth iddynt drefnu'r holl osodiadau mewn trefn pwysigrwydd.

Teimlid bod y cwestiwn mawr a gafodd y disgyblion ar ddechrau'r tymor wedi ysgogi llawer o frwdfrydedd ymysg y disgyblion a bod y rhan fwyaf ohonynt wedi gwneud cynnydd da yn ystod y tymor.

Bu dosbarth y Cyfnod Sylfaen yn trafod hanes Y Pasg, a hynny trwy ddarllen y stori o'r Beibl, actio gwahanol olygfeydd a chreu golygfeydd gyda modelau pwrpasol. Crewyd llyfrau personol syml am hanes Y Pasg, gyda'r pwyslais ar fywyd newydd. Aethpwyd â'r disgyblion i Goleg y Bala am y diwrnod er mwyn dyfnhau eu profiadau o stori'r Pasg. Cafwyd y stori ar ffurf drama a straeon syml – roedd hyn yn sicr yn dyfnhau eu dealltwriaeth o'r hanes, gan eu bod yn fwy parod i ateb cwestiynau a mynegi barn.

**Materion i gael sylw**

Rhoi mwy o amser i'r plant drafod a mynegi barn er mwyn cryfhau eu dealltwriaeth a datblygu hyder wrth ymdrin a chwestiynau crefyddol – yn y CS a CA2.

Codi mwy o ymwybyddiaeth am grefyddau'r byd.

| **Rhagorol** | | **Da** | * | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

Yng Nghyfnod Allweddol 2 rhoddir sylw wythnosol i Addysg Grefyddol fel rhan o'r thema tymhorol. Bydd y mwyafrif o'r gweithgareddau yn rhai traws-gwricwlaidd a hynny er mwyn gwau llythrennedd a rhifedd i'r holl feysydd. Rhoddir llawer o sylw i strategaethau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu wrth addysgu Addysg Grefyddol. Bu'r disgyblion yn llunio gridiau GED er mwyn ysgogi gwybodaeth flaenorol, creu mapiau meddwl, rhestru deimwnt a phennu meini prawf llwyddiant er mwyn asesu gwaith eu hunain.

Rydym wedi diwygio ein dulliau cynllunio ers mis Medi fel bod llinynnau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn gwau drwy'r holl feysydd. O ganlyniad mae mwyafrif o'r gwaith yn draws-gwricwlaidd, ac mae'r holl bynciau yn plethu i'w gilydd. Rhoddir llawer o sylw i sgiliau a ddatblygir o fewn y gwaith Addysg Grefyddol, megis Ymdrin â'r Cwestiynau Sylfaenol. Rydym wedi buddsoddi mewn cyfres o lyfrau sy'n canolbwyntio ar y Cwestiynau Sylfaenol, ac mae'r cynlluniau gwaith yn seiliedig ar y rhain, gan ymgeisio i sicrhau bod y gwaith yn fwy ymchwiliol ei naws.
Yn y Cyfnod Sylfaen mae'r disgyblion wedi derbyn cyfleoedd i archwilio eu profiadau, cwestiynau a blaenoriaethau eu hunain, a rhai pobl eraill. Rhoddwyd pwyslais mawr, a gwnaed llawer o waith ar sut y gellir ymddwyn yn gyfrifol tuag at ein ffrindiau, ein hunain a phethau byw eraill. Rydym yn ymdrechu i ddefnyddio dull agored sy'n annog y plant i gymryd rhan ac i godi cwestiynau eu hunain. Mae hyder a gallu'r disgyblion i gwestiynu wedi datblygu yn arw o ganlyniad. Bydd llawer o'r gwaith yn cael ei gyflwyno yn ystod amser cylch.

**Materion i gael sylw**
Parhau i gynllunio yn wahaniaethol er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cynnig y lefel her priodol ar gyfer pob disgybl.

| **Rhagorol** | | **Da** | * | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** | **Nac ydy** |
|---|---|---|

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**
Mae cyfnodau addoli ar y cyd dyddiol, ynghyd â'r cyfleoedd i ddysgu am gredoau pobl o wahanol ddiwylliannau, yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn llwyddiannus.
Trwy'r cyngor ysgol, mae gan ddisgyblion gyfrifoldebau pendant a llais dylanwadol am yr hyn sy'n digwydd yng nghymuned yr ysgol. Wrth hunan werthuso ein gwasanaeethau yn ddiweddar, nododd y Cyngor Ysgol bod y gwasanaethau yn rhy hir, ac y byddai canu un emyn yn hytrach na dwy yn byrhau y gwasanaethau. Awgrymwyd hefyd bod rhai o'r plant yn cael cyfleoedd i action ambell stori yn y gwasanaeth er mwyn gwneud y gwasanaethau yn fyw diddorol i'r babanod.
Mae arferion fel cynnal gwasanaeth Diolchgarwch yn yr eglwys a manteisio ar dalentau'r ardal leol, yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad medrau cymdeithasol disgyblion ac yn cryfhau eu hymglymiad i'w cymuned.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**
Cychwyn y gwasanaeth gyda gweddi er mwyn creu awyrgylch, ac i gael dechreuad pendant i'r addoliad.
Gwahaniaethu'n glir rhwng yr hyn sy'n addoliad a'r hyn sy'n gyfarfod ysgol gyfan i glywed cyhoeddiadau'r dydd – diffodd y gannwyll er enghraifft.

| **Rhagorol** | | **Da** | * | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: *Bethan Emyr Jones* Pennaeth

Dyddiad: 19.5.15

**Enw'r Ysgol:** **Y Felinheli** **Cyfeiriad: Y Felinheli, Gwynedd, LL564TZ**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol; Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009).

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

- Dengys asesiadau athrawon bod bron pob plentyn yn gwneud cynnydd da mewn Addysg Grefyddol.
- Yn 2014 'roedd pob un plentyn wedi cyrraedd y lefel ddisgwyliadwy ar ddiwedd CA2.Targedir y bydd 100% o ddisgyblion 2015 yn cyrraedd Lefel 5 ar ddiwedd CA2
- Gwna ddisgyblion y CS gynnydd da, gyda bron pob un yn cyrraedd y lefel ddisgwyliadwy ar ddiwedd cyfnod.
- Gwneir defnydd da o asesu ar gyfer dysgu ac mae tracio priodol o gyraeddiadau.

**Safonau medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl**

- Yn dilyn craffu ar lyfrau gwelwyd tystiolaeth da o'r cyd bwysedd rhwng darllen ,ysgrifennu a llafaredd. Gwelwyd cyfleoedd cyson i ymchwilio a gwneud cysylltiadau rhwng credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol e.e. edrych ar effaith yr Ail Ryfel Byd ar fywydau pobl a chrefyddau, Trafodwyd beth yw deddfau? Sut ddeddfau sydd yn bodoli heddiw Gwelwyd enghreifftiau da o mapiau meddwl.

- Yn yr Adran Iau gwelwyd themâu penodol yn ymdrin â 'Dathliadau' gyda cyfleoedd da i ddefnyddio sgiliau llafaredd a chyfathrebu e.e. ail greu priodas yn Nant Gwrtheyrn, lle cafwyd cyfleoedd da iawn i brofi priodas go iawn.'Roedd sgilau llafaredd y disgyblion yn dda.

- Wrth fonitro addysgu yn y CS gwelwyd ysgrifennu ffeithiol cynnar effeithiol wrth gywain gwybodaeth am Y Fam Theresa a dangoswyd sgiliau cyfrifiadurol / darllen da wrth ddethol gwybodaeth o ffynhonnellau ar y we.

- Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y CS yn gallu trafod yn briodol a chynnig sylwadau adeiladol wrth sôn am bersonau di gartref a'u anghenion.

- Wrth fonitro llawr dosbarth gwelwyd defnydd effeithiol o'r ardal chwarae rôl i greu Eglwys ac i ehangu sgiliau llafaredd yn dda.e.e. cafwyd cyfleoedd da i gymeryd rhan mewn bedydd, ac ymestynnwyd y weithgaredd i gynnwys canu emynau.

**Materion i gael sylw**

- Gwneud gwell defnydd o holl agweddau TGCh wrth ddehongli data

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol, Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009.

**Yr addysgu mewn addysg grefyddol: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

- Gellir gweld dylanwad penodi athrawes CPA i gyflwyno Addysg Grefyddol yn CA2 yn y gwelliant mewn ansawdd yr addysgu yng CA2 yn benodol ,a'r cyd lynnedd rhwng blynyddoed
- Ceir cynllunio effeithiol dros gylch dwy flynedd, ac fe sicrheir cwricwlwm cytbwys.Mae'r cynllunio yn fanwl ac yn rhoi sylw priodol i sgiliau a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhif
- Mae'r CS yn paratoi yn dda ar gyfer sicrhau adnabyddiaeth o ddiwylliannau eraill, ac yn effeithiol wrth gymharu credoau mewn gwledydd megis India a China.Gwelir paratoad da ar gyfer sicrhau trafod ac ymateb i gwestiynau sylfaenol sy'n codi trwy eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd.

- Dangosodd gweithgaredd traws gwricwlaidd craffu ar lyfrau fod llawer o ddisgyblion yn arddangos sgiliau llythrennedd priodol wrth ysgrifennu'n estynedig e.e. sut mae credinwyr yn cael heddwch – gydag ymdriniaeth briodol o'r Shabbatt a'r Iddewon yn ystod yr Ail Ryfel Byd.
- Gwneir defnydd digonol o ymwelwyr /ymarferwyr crefyddol i gynnal gwasanaethau ysgol.

**Darpariaeth ar gyfer y medrau: llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl**

- Dengys awdit cynlluniau bod paratoad da ar gyfer datblygu sgiliau , a bod sylw priodol yn cael ei roi i ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau a dulliau addysgu
- Dengys craffu ar lyfrau bod y rhan fwyaf o'r cynllunio yn weithredol ymron bob un flwyddyn.

**Materion i gael sylw**

- Mae angen hyfforddiant ychwanegol ar y cyd lynnydd er mwyn sicrhau gwybodaeth cyfredol o'r rhaglen astudio ac i ehangu arbennigedd
- Gwneir defnydd helaethach o arbenigedd ymarferwyr gwahanol

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?**

| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy √** | **Nac ydy** |
|---|---|---|

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94), Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2012).

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

Yn dilyn adroddiad Estyn 2015 ,daethpwyd i'r farn bod yr

'…. ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol iawn. Trwy gynnwys cyfleoedd i fyfyrio yn rheolaidd mewn gwasanaethau boreol ysgol gyfan a'r gwasanaethau dosbarth mae'r ysgol yn annog datblygiad ysbrydol y disgyblion yn effeithiol. Mae'r athrawon yn atgyfnerthu hyn yn y sesiynau amser cylch.'

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Sicrhau nad yw gwersi offerynnol/ peripatetig yn amharu ar y cyfle i fyfyrio.

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: Non Wyn Huws (Pennaeth)

Dyddiad: 26.01.2015

**Cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru, Castell Nedd Port Talbot, 6 Mawrth 2015 (10.30am – 3pm)**

***Wales Association of SACREs meeting, NPT, 6 March 2015 (10.30am – 3pm)***

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| **Ynys Môn / *Anglesey***<br>Bethan James<br>Rheinallt Thomas<br><br>**Blaenau Gwent**<br><br>**Pen-y-bont ar Ogwr / *Bridgend***<br>Edward Evans<br>Vicky Thomas<br>Lowri Florence<br>Cathryn Davies-Jones<br><br>**Caerffili/ *Caerphilly***<br>Vicky Thomas<br><br>**Caerdydd / *Cardiff***<br>Katherine Mayer<br><br>**Sir Gaerfyrddin / *Carmarthenshire***<br>Mary Parry<br>Meinir Wynne Loader<br><br>**Ceredigion**<br>Lyndon Lloyd<br><br>**Conwy**<br>Nicholas Richter | **Sir Ddinbych / *Denbighshire***<br>Gavin Craigen<br><br>**Sir y Fflint / *Flintshire***<br><br>**Gwynedd**<br>Bethan James<br><br>**Merthyr Tudful / *Merthyr Tydfil***<br>Y Cyngh./<br>Vicky Thomas<br>Ernie Galsworthy<br><br>**Sir Fynwy / *Monmouthshire***<br>Sharon Perry- Phillips<br>Susan Cave<br>Neeta Singh Baicher<br><br>**Castell-nedd Port Talbot / *Neath and Port Talbot***<br>Jen Malcolm<br>Peter Rees<br>Janice Dudley<br>Rachel Samuel<br>Gwilym Jones<br><br>**Casnewydd / *Newport***<br>Vicky Thomas<br>Andrew Powles<br>Huw Stephens<br>Neeta Singh Baicher<br>*Sally Northcott*<br>Amanda B. Davies<br>Soam Sharma<br><br>**Sir Benfro / *Pembrokeshire***<br>Huw George | **Powys**<br>Margaret Evitts<br><br>**Rhondda Cynon Taf**<br><br>**Abertawe / *Swansea***<br>Vicky Thomas<br>Chris Mann<br>Rachel Bendall (SMUTSD)<br>Claire Foley<br>Alison Lewis<br>Helen-Marie Davies<br><br>**Torfaen /Torfaen**<br>Vicky Thomas<br>Marilyn Frazer<br>Helen Bevan<br><br>**Bro Morgannwg / *Vale of Glamorgan***<br><br>**Wrecsam / *Wrexham***<br>Tania ap Sion<br>Libby Jones<br><br>**Sylwedyddion / *Observers***<br>Leslie Francis (St Mary's Centre)<br>Mark Campion (Estyn)<br>Eldon Phillips (REMW) |

**Cofnodion**

## 1. Cyflwyniad a chroeso

Cyflwynodd y Cadeirydd, Tania ap Siôn, Aled Evans, Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes Castell-nedd Porth Talbot, a roddodd yr anerchiad croeso.

Croesawodd Aled Evans CCYSAGau Cymru i'r Orendy ym Margam. Dywedodd ei fod yn lleoliad da i gyfarfod sy'n canolbwyntio ar addysg grefyddol, gan ei fod yn drigfan barhaus ers pedair mil o flynyddoedd sy'n ein hatgoffa am yr angen i ddiogelu'n treftadaeth. Mae'r ystâd 850 erw yn un o'r prif aneddiadau hynafol yng Nghymru, safle cyn-hanesyddol gyda thystiolaeth i bobl fyw yma yn yr Oes Efydd, ac oes y Celtiaid a'r Rhufeiniaid. Mae iddo bwysigrwydd crefyddol arbennig hefyd fel safle Abaty Sistersaidd, a adeiladwyd yn y Canol Oesoedd ac mae ganddo gysylltiadau ar draws Cymru. Codwyd yr Orendy ei hun ar ddiwedd y 18fed Ganrif. Mae gan Gastell-nedd Porth Talbot CYSAG gweithgar, sydd bob amser yn chwilio am syniadau newydd ar gyfer monitro safonau mewn addysg grefyddol a chyd-addoli. Mae CYSAG newydd ddechrau proses fonitro newydd, sef defnyddio dull newydd o wahodd Penaethiaid AG mewn ysgolion uwchradd i gyflwyno'u hadrannau ym mhob cyfarfod a rhannu'r cynlluniau sydd ganddynt i sicrhau datblygiad, yn cynnwys eu rhaglen bontio â'r ysgolion cynradd lleol. Hefyd, mae Diwrnod Cofio'r Holocost yn bwysig iawn yng Nghastell-nedd Port Talbot ac yn un y mae'r awdurdod lleol a CYSAG yn ymfalchïo ynddo. Crybwyllodd Aled Evans Adroddiad Donaldson sydd newydd ei gyhoeddi a dywedodd ei bod yn dda gweld cefnogaeth i addysg grefyddol yn yr adroddiad ac argymhelliad i gadw AG yn ofyniad statudol yng Nghymru. Dywedodd hefyd fod addysg grefyddol yn fodd i ddatblygu'r sgiliau bywyd pwysig sydd eu hangen ar bob dysgwr ac yn fforwm i feddwl am y cwestiynau dwfn. Dywedodd fod gwir angen diogelu'r sgiliau hyn, gan eu bod nid yn unig yn helpu i ddatblygu gwybodaeth am grefyddau gwahanol, ond hefyd yn helpu'r dysgwyr i ffurfio syniadau am y byd o'n cwmpas. Disgrifiodd Aled Evans sut roedd ei ferched ei hun wedi elwa'n aruthrol ar addysg grefyddol yn yr ysgol ac aeth ymlaen i ddweud nad ydym yn aml yn sylweddoli pwysigrwydd addysg grefyddol sy'n helpu dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth am grefyddau gwahanol a hyrwyddo integreiddio ac ymdeimlad cymunedol cryf. Yn ei farn ef, mae Cymru'n gwneud hyn yn dda gan nad ydym yn wlad neu'n genedl; rydym yn un pentref mawr. Dymunodd gyfarfod da i CYSAGau Cymru.

Diolchodd y Cadeirydd i Aled Evans am ei eiriau a chroesawodd y Cynghorydd Peter Rees a'r Cynghorydd Janice Dudley (Cadeirydd CYSAG CNPT) i'r cyfarfod.

## 2. Adfyfyrio tawel

Myfyrdod tawel i baratoi am y cyfarfod.

DRAFT

3. **Ymddiheuriadau** John Mitson, Cyng. Michael Gray, Tudor Thomas, Cyng. Deborah Wilcox, Helen Gibbon, Gill Vaisey, Christine Abbas, Arthur Threlfall, Ams Kingra, Farida Patel, P Harris, Wyn Meredith, Louise Thomas, Steve Price.

4. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Nhorfaen, 26 Tachwedd 2014**

   Yn dilyn un newid i restr y rhai oedd yn bresennol, derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

5. **Materion yn codi**

   T4. Eitem 5. Nodir yn yr Adroddiad Gweithredol nad yw Cymru'n cael ei chynrychioli bellach ar Gyngor AG Cymru a Lloegr. Yn y gorffennol roedd gan Gymru le cyfetholedig, ond dim lle diogel. Mae'r REC yn cynnig cyfle i CCYSAGauC enwebu cynrychiolydd i'r Bwrdd, ond, nid oes sicrwydd y caiff yr enwebai ei ethol. Cytunodd y Pwyllgor Gweithredol ysgrifennu at yr REC yn mynegi ei siom â'r sefyllfa hon. Bydd Libby Jones yn ysgrifennu'r llythyr. Dywedodd y Cyn Gadeirydd, Edward Evans, ei bod yn bwysig fod Cymru'n cael cynrychiolaeth ar y Bwrdd hwn y mae Cymru'n rhan o'i enw.

DRAFT

   T7. Eitem 7. Mae'r cyflwyniad gan CGAC, 'Beth mae'r data'n dysgu i ni?' ar wefan CCYSAGauC i'w rannu â'r CYSAGau.

   T.8. Eitem 7. Mae'r cyflwyniad gan CYSAG Sir Fynwy 'Dathlu Prosiect Pontio AG' ar wefan CCYSAGauC i'w rannu â'r CYSAGau.

   T9. Eitem 7. Mae'r cyflwyniad gan aelodau NAPfRE 'CYSAGau a'r trefniadau consortia (adborth)' ar wefan CCYSAGauC i'w rannu â'r CYSAGau.

   Fel arfer bydd cyflwyniadau NAPfRE i gyd yn cael eu llwytho ar wefan CCYSAGauC ac mae'r broses hon bellach yn rhan o'r protocol. www.wasacre.org.uk

   Holodd Rheinallt Thomas a oedd hyn yn dod yn lle REflections a arferai ymddangos yn RENews. Cyfrifoldeb Canolfan Peniarth yw REflections bellach ac felly mae angen cytuno ar broses i barhau rhannu'r wybodaeth hon ag RENews ar-lein. Atebodd Tania ap Siôn drwy egluro nad yw CCYSAGauC wedi edrych eto ar sut byddai hyn yn gweithio ers i RENews symud i fod ar-lein yn unig ac mae angen ei godi yn y Pwyllgor Gweithredol. Mae Rachel Bendall yn helpu gyda'r wefan newydd ac eglurodd hi'r sefyllfa. Cynigiodd Rachel drosglwyddo unrhyw sylwadau neu gwestiynau i Ganolfan Peniarth. Atgoffodd Tania ap Siôn yr aelodau mai cyfrifoldeb y sawl sy'n cyflwyno yw ysgrifennu esboniad ar eu cyflwyniad cyn y gellir ei gyhoeddi ar y wefan, ond y gallai CCYSAGauC helpu gyda hyn. Nid yw cynnwys cyflwyniadau PowerPoint ar wefan CCYSAGauC yn dod yn lle erthyglau ysgrifenedig i gyflwyniadau; maent yn ddau fath gwahanol o adnodd.

U.F.A. Rhoddwyd diweddariad byr ar y prosiect hwn - sef cais yr Athro Leslie Francis am fyfyrwyr chweched dosbarth a fyddai'n fodlon cymryd rhan yn ei arolwg Ewrop gyfan 'Crefydd, Gwerthoedd a Hawliau Dynol'. Mae dwy ysgol wedi ymateb i'r cais. Mae'r arolwg ar gael yn Saesneg yn unig, mae dal cyfle i gymryd rhan, ac mae ar agor i rai 16 i 18, yn ogystal â blwyddyn 11. Yng nghyfarfod Torfaen dywedwyd ei fod i'r 6ed dosbarth yn unig. Dywedodd Leslie Francis ei fod yn defnyddio'r arolwg i wrando ar bobl ifanc er mwyn cael dealltwriaeth am eu barn ar grefydd, eu gwerthoedd a'u barn ar Hawliau Dynol. Rhan o bwrpas yr arolwg hwn yw deall y gwrthdaro rhwng safbwyntiau crefyddol a safbwyntiau Hawliau Dynol. Dywedodd Leslie Francis hefyd mai barn empeiraidd yw hon a chynigodd rai enghreifftiau o gwestiynau'r arolwg i'r aelodau fwrw golwg drostynt amser cinio. Dywedodd yr Athro Francis y byddai'n croesawu cyfle i gyflwyno a thrafod canlyniadau arolwg Cymru yn un o gyfarfodydd CCYSAGauC.

6. **Diweddariadau*:***

**Bagloriaeth Cymru Newydd**

Rhoddodd Libby Jones drosolwg sydyn o'r cymhwyster newydd. Mewn ymateb i ganfyddiadau'r Arolwg Cymwysterau, mae Bagloriaeth Cymru'n newid o fis Medi 2015. Bydd craidd y Fagloriaeth ddiwygiedig yn canolbwyntio ar y sgiliau canlynol: Llythrennedd, Rhifedd, Llythrennedd Digidol, Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau, Cynllunio a Threfnu, Creadigedd ac Arloesi, ac Effeithiolrwydd Personol. Bydd y sgiliau hyn yn cael eu datblygu, eu cymhwyso a'u hasesu drwy gwblhau pedair 'Her', sef: Her Prosiect Unigol (50%), Her Dinasyddiaeth Fyd-eang (15%), Her Menter a Chyflogadwyedd (20%), a Her Cymunedol (15%). Yr heriau hyn fydd craidd Bagloriaeth Cymru a byddant yn ffurfio Tystysgrif yr Her Sgiliau, sydd yn TGAU yn ei rinwedd ei hun. Cymhwyster Bagloriaeth Cymru drwyddo draw fydd y Dangosydd Perfformiad allweddol i ysgolion o 2018. Eglurodd Libby fod ysgolion wedi cael gwybod na ddylai fod yn rhaglen 'glynu ymlaen' ac na ddylai gael ei chyflwyno'n bennaf drwy 'flociau' o amser (e.e. ar ddiwedd tymor), sy'n creu problemau i ysgolion o ran dod o hyd i le mewn amserlen sydd eisoes yn llawn. Mae rhai Penaethiaid AG yn pryderu am y sefyllfa hon gan eu bod eisoes wedi gweld amser AG yn CA4 yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwersi Bagloriaeth Cymru yn eu hysgolion. Dywedodd Libby wrth yr aelodau y dylent fod yn ymwybodol o'r broblem hon ac ystyried sut y gall CYSAGau unigol gefnogi AG yn eu Hawdurdodau Lleol. Gall AG wneud cyfraniad i'r heriau o fewn amser AG craidd ond mae angen meddwl sut mae gwneud hyn heb golli amser hanfodol i baratoi gogyfer arholiadau. Ymatebodd Vicky Thomas drwy ddweud fod AG yn dal yn ofyniad statudol, mae Adroddiad Donaldson wedi cryfhau hynny a dylid atgoffa ysgolion am hyn. Ategwyd sylwadau Vicky gan aelodau eraill, gan gynnwys yr angen i ysgolion, yn enwedig adrannau AG, gael cymorth CYSAGau yr adeg hon. Codwyd cwestiynau eraill yn cynnwys o ble byddai'r cymorth hwn yn dod, cyllidebau ayb, a ble mae'r bobl broffesiynol i roi'r cymorth? Diolchodd Tania ap Siôn i'r aelodau am eu sylwadau pwysig a gofynnodd sut gall CCYSAGauC helpu a gweithio tuag at roi cefnogaeth i

DRAFT

ysgolion a CYSAGau. Dywedodd Vicky fod angen i Gyrff Llywodraethu ddangos cefnogaeth hefyd a gellir ysgogi hyn drwy anfon Taflen atynt yn egluro cyfraniad AG.

**Arholiadau Astudiaethau Crefyddol**

Rhoddodd Vicky Thomas ddiweddariad am y sefyllfa bresennol. Eglurodd fod dau gyfarfod rhanddeiliaid wedi'u cynnal. Y naill ym mis Tachwedd 2014 a fynychwyd gan Tania ap Siôn ar ran CCYSAGauC a'r llall ym mis Rhagfyr y bu hi, Mary Parry a Phil Lord ynddo fel cynrychiolwyr CCYSAGauC. Tynnwyd sylw'r aelodau at y daflen wybodaeth a oedd yn rhan o bapurau'r cyfarfod, a gofynnodd Vicky i'r aelodau nodi'r canlynol:

Bydd newidiadau i'r manylebau presennol i Gymru a bydd nifer o fodelau'n mynd allan i'r ysgolion yng Nghymru i ymateb iddynt. Gofynnodd Vicky i'r aelodau bwyso ar yr ysgolion i ymateb gan fod eu llais yn bwysig. Dywedodd Vicky wrth yr aelodau fod teimlad cryf o fewn CBAC y bydd y Cwrs Byr Astudiaethau Crefyddol yn parhau. Ar lefel TGAU bydd astudio dwy grefydd wahanol yn dod yn orfodol yn Lloegr ac felly bydd hynna'n debygol o ddigwydd yng Nghymru hefyd. Mae posibilrwydd hefyd y bydd Bwdhaeth a Sikhiaeth yn cael eu cynnwys ym manyleb TGAU.

Ar lefel AS ac A2 bydd y ddau gymhwyster yn sefyll ar eu pennau eu hunain yn Lloegr (ni fydd yr AS bellach yn cysylltu â'r A2) ac ni fydd arholiad mis Ionawr a dim opsiwn synoptig yn Lloegr. Ond, yng Nghymru bydd y myfyrwyr yn cael dewis gwneud yr opsiwn synoptig, ond ni fyddant mwyach yn cael gweld y cwestiwn cyn yr arholiad. Yng Nghymru bydd yr AS yn dal i gysylltu â'r A2, ond fel yn Lloegr ni fydd arholiad mis Ionawr. Yng Nghymru, ni fydd cynnwys rhagnodedig i'r Cwricwlwm Cymreig, ond bydd Cwricwlwm Cymreig lleol yn cael ei annog lle y bo'n briodol.

O dan Proses ac Amserlen ar y daflen, dywedodd Vicky y bydd Llywodraeth Cymru'n cael cais am achredu'r manylebau erbyn 30 Medi 2015 ac nid yr Haf fel mae'r daflen yn awgrymu, a bydd yn weithredol o Hydref 2016.

Yn dilyn adroddiad Vicky codwyd y cwestiynau canlynol:

A fydd modelau'r fanyleb a anfonir i ysgolion ar ffurf copi caled neu electronig? Nid oedd Vicky Thomas yn gallu cadarnhau hyn.

A fydd yn rhaid i un o'r ddwy grefydd orfodol fod yn Gristnogaeth? Cadarnhaodd Vicky Thomas nad oedd.

Diolchodd Tania ap Siôn i Vicky Thomas am y diweddariad.

**Cysylltiadau Llywodraeth Cymru**

Parthed y cais i ailsefydlu'r cyfarfod gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis: Ysgrifennodd Libby Jones at y Gweinidog i sicrhau dyddiad addas ar gyfer y cyfarfod a chafwyd ateb ar 11 Rhagfyr 2014 yn dweud wrth CCYSAGauC na fyddai'r Gweinidog



DRAFT

yn ystyried cyfarfod nes i Adroddiad Donaldson gael ei gyhoeddi. Yn dilyn y llythyr hwn cyfarfu Libby Jones a Tania ap Siôn â John Pugsley, Pennaeth Cefnogi Pynciau 7-19 a Steve Price, sy'n gyfrifol am AG a phynciau di-graidd eraill y cwricwlwm, ill dau o Lywodraeth Cymru, ar 20 Ionawr 2015. Nid oedd Louise Thomas yn bresennol. Buont yn trafod sut y gall Llywodraeth Cymru a CCYSAGauC weithio gyda'i gilydd mewn perthynas a fydd o fudd y naill i'r llall. Cytunodd y ddwy ochr gyfarfod ddwywaith y flwyddyn i drafod materion AG ac addoli ar y cyd yn ogystal â materion cysylltiedig eraill. Dywedodd Tania ap Siôn fod y cyfarfod yn un cadarnhaol ac y bydd CCYSAGauC yn cadw mewn cysylltiad â Mr Pugsley a Mr Price rhwng y cyfarfodydd. Gwnaed cais pellach am gyfarfod gyda'r Gweinidog yn y cyfarfod, a chynghorwyd CCYSAGauC i barhau i godi rhai materion penodol gyda Huw Lewis yn uniongyrchol.

**Adolygiad cwricwlwm**

Dywedwyd wrth yr aelodau fod CCYSAGauC wedi cymryd rhan o ddechrau'r broses adolygu hon, yn cyfarfod yr Athro Donaldson ac yn ateb i'r holiadur ymgynghori cychwynnol.

Rhoddodd Cadeirydd NAPfRE, Bethan James, gyflwyniad PowerPoint a oedd wedi cael ei drafod yn flaenorol yng nghyfarfod NAPfRE ar 5 Mawrth 2015 ac sydd bellach ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru a gwefan CCYSAGauC ar gyfer yr aelodau. Tynnodd y cyflwyniad sylw at rai o brif bwyntiau Adroddiad Donaldson, fel a ganlyn:

Pedwar diben addysg.

Chwe Maes Dysgu a Phrofiad.

Tri cyfrifoldeb trawsgwricwlaidd.

Camau Cynnydd yn oed 5, 8, 11, 14 ac 16
(yn cynnwys 'Llwybrau').

Deilliannau cyflawniad.

Cymysgedd o ddulliau addysgu.

Canolbwyntio eto ar asesu ar gyfer dysgu, yn cynnwys hunan-ddysgu ac asesu cyfoedion.

Monitro sut mae'r system yn gweithio ar lefel genedlaethol drwy samplu blynyddol.

Mae holiadur pellach ar wefan Llywodraeth  Cymru erbyn hyn ac mae ysgolion, grwpiau ac unigolion eraill yn cael eu hannog i ymateb iddo. Fodd bynnag, cyn ei lenwi, gwahoddir y grwpiau hyn hefyd i gymryd rhan yn y 'Sgwrs Fawr' ac mae cyfres o adnoddau wedi'u paratoi ar gyfer hon. Bydd y rhain yn sbarduno ac yn ategu'r drafodaeth. E.e. clipiau ffilm, cwestiynau ayb.

DRAFT

Hysbysodd Vicky Thomas yr aelodau fod pedair 'Sgwrs Fawr' wedi'u trefnu ledled Cymru fel a ganlyn:

11 Mawrth - 16:00-18:00 - Neuadd Reichel, Prifysgol Bangor
12 Mawrth - 08:00-10:00 – Canolfan Catrin Finch (awditoriwm), Wrecsam - CANSLWYD
18 Mawrth - 16:00-18:00 – Stadiwm y Liberty, Abertawe
19 Mawrth - 08:00-10:00 - Coleg y Cymoedd, Nantgarw A GWEMINAR BYW.

Er mwyn cael lle yn un o'r trafodaethau hyn bydd yn rhaid i'r aelodau gyflwyno eu henw drwy wefan Llywodraeth Cymru a disgwyl cadarnhad.

Gelwir y broses hon yn 'Gam 1' ac mae'n mynd o 4 Mawrth i 8 Mai 2015. Wedi hynny ystyrir pob barn a chyhoeddir datganiad gan Lywodraeth Cymru yn yr haf.

Sicrhaodd Bethan James yr aelodau fod y deunydd yn gyfredol iawn ac yn hynod o berthnasol i CCYSAGauC. Dyma gwestiynau'r 'Sgwrs Fawr':

C1. Ym mha ffyrdd rydych chin cytuno neu'n anghytuno nad yw'r cwricwlwm cenedlaethol presennol yn addas bellach i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc yng Nghymru?

C2. Beth yw eich barn chi am y pedwar diben cyffredinol sy'n cael eu disgrifio yn yr Adroddiad? Yn gyffredinol, ydych chi'n credu mai'r rhain yw'r sail briodol i'r cwricwlwm i blant a phobl ifanc Cymru yn y dyfodol? Ac, os nad ydyn nhw, pam hynny?

C3. Mae cyfuno pynciau ac agweddau eraill ar ddysgu mewn chwe Maes Dysgu a Phrofiad yn cadarnhau pwysigrwydd pynciau – a hefyd yn cydnabod agweddau ar ddysgu sydd hefyd yn bwysig fel iechyd a lles. Ym mha ffyrdd rydych chi'n cytuno neu'n anghytno â'r dull hwn o weithredu?

C4. Mae'r adolygiad yn argymell dull o asesu sy'n ymwneud yn bennaf â chefnogi dilyniant addysgol plant a phobl ifanc, ac yn gwahaniaethu rhwng asesu i helpu dilyniant ac asesu i roi tystiolaeth ar gyfer atebolrwydd. Ym mha ffordd rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dull hwn o weithredu?

C5. Beth yw'ch ymateb cyntaf i'r egwyddorion addysgegol sydd wedi'u disgrifio yn Adroddiad yr Athro Donaldson?

C6. Mae Adroddiad yr athro Donaldson yn cynnig y bydd ysgolion/lleoliadau ac athrawon yn chwarae rhan bwysicach o lawer wrth siapio'r cwricwlwm.

(Mae hyn yn berthnasol iawn. Athrawon ac ysgolion yn cael y rhyddid i ddatblygu cwricwlwm sy'n berthnasol i'w disgyblion eu hunain. Mae angen i'r CYSAGau drafod y cwestiwn hwn ymhellach)

DRAFT

C7. Beth yw'r ffordd orau o barhau â'r broses hon o gyfranogi a sut y byddai'ch ysgol/lleoliad chi'n hoffi cymryd rhan? Arolygon, cynadleddau, gweithdai, sgyrsiau wedi'u trefnu'n lleol, cyfryngau cymdeithasol, arall (nodwch).

Cynigiodd Bethan James fod NAPfRE yn ymateb fel grŵp, a chan na fydd CCYSAGauC na'r rhan fwyaf o'r CYSAGau yn cwrdd cyn y dyddiad cau, sef 8 Mai, y byddai grŵp NAPfRE (a fydd hefyd yn cynnwys aelodau Gweithredol CCYSAGauC) yn ymateb ar ran CCYSAGauC hefyd, os yw'r aelodau'n cytuno. Cytunodd yr aelodau a oedd yn bresennol â'r cynnig hwn. Gofynnodd  Rheinallt Thomas i'r ymateb gael ei anfon i'r aelodau i gyd drwy'r CYSAGau a'r Pwyllgor Gwaith cyn ei anfon i Lywodraeth Cymru fel y gall fod yn sail i'w hymatebion, fel y bo'n briodol. Cytunwyd i hyn. Pwysodd Bethan ar unigolion a'r CYSAGau i ymateb i'r holiaduron fel bod AG yn cael ei chynrychioli'n dda.

Holodd Edward Evans pam fod natur statudol AG hyd at 16 oed a ddim pellach. Atebodd Mary Parry drwy ddweud fod yr adolygiad hwn wedi'i gomisiynu ar gyfer hyd at 16 oed yn unig.

**7. Cyflwyniad NAPfRE*:***

DRAFT

Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ac Addysg Grefyddol Rachel Bendall

Cyflwynodd Rachel Bendall, Uwch Ddarlithydd TAR Uwchradd mewn Addysg Grefyddol o Brifysgol y Drindod Dewi Sant PowerPoint yn dangos y gwaith a wnaed gan ei myfyrwyr i ymgorffori'r Fframwaith wrth ddysgu addysg grefyddol. Dangosodd Rachel amryw o dasgau enghreifftiol yr oedd y myfyrwyr wedi'u treialu'n llwyddiannus yn ystod eu hymarfer dysgu.

Rhannwyd yr adnoddau ar wefan newydd RENews. Cyfeiriad cywir y wefan hon yw http://www.religious-education-wales.org/ ac mae hefyd ar wefan Hwb https://hwb.wales.gov.uk/ . Bydd y cyflwyniad PowerPoint ar gael ar wefan CCYSAGauC hefyd.

Ennyn diddordeb bechgyn mewn AG a chodi eu safonau Mary Parry

Eglurodd Mary Parry fod y mater penodol hwn yn un a godwyd gan Estyn ar draws y cwricwlwm a hefyd yn yr Adolygiad Thematig o Addysg Grefyddol yn 2012 ac felly mae'n gyfredol iawn. Rhannodd Mary gynllun gwaith ar gyfer disgyblion CA3 a ddatblygwyd ganddi o'r enw 'Pêl-droedwyr Mwslimaidd yn yr Uwch-Gynghrair'. Nod y cynllun yw ennyn diddordeb a chymhelliant bechgyn, codi safonau, gweithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, datblygu sgiliau addysg grefyddol a datblygu sgiliau meddwl.

Dangoswyd cyflwyniad PowerPoint i'r aelodau y gellid ei ddefnyddio â disgyblion yn y dosbarth a dosbarthwyd copïau o'r tasgau sy'n mynd gyda'r PowerPoint i fynd yn ôl i'r CYSAGau.

Gwnaeth yr aelodau un o'r tasgau mewn grwpiau, gan roi eu hymateb a chafwyd trafodaeth i ddilyn.

Dywedodd Meinir Loader ei bod wedi treialu'r tasgau hyn ac wedi gweld drosti'i hun y manteision i'w disgyblion a safon uchel y dasg ysgrifennu estynedig ymhlith bechgyn a merched.

Croesawodd yr Athro Leslie Francis y cyflwyniad. Dywedodd ei fod yn ffordd dda o ddefnyddio delweddau gwrywaidd yn AG ac yn dangos y gall dynion hefyd fod yn grefyddol. Eglurodd Leslie Francis fod ymchwil gyfredol yn dangos fod crefydd wedi cael ei fenyweiddio yn y ffordd y mae'n apelio at y rheiny sydd o natur arbennig ('rhai sy'n teimlo') a'i fod yn bwysig ehangu apêl addysg grefyddol i ymateb i ddiddordebau'r 'rhai sy'n meddwl' hefyd. Nid yw 'meddylwyr' a 'theimladwyr' yn cael eu pennu gan y rhyw (dynion a merched) ond, dengys ymchwil mewn nifer o wledydd fod cyfran uwch o ddynion yn tueddu i fod yn 'feddylwyr' a mwy o fenywod yn 'deimladwyr'. Mae'n bwysig gwneud ymchwil sy'n trafod hyn ymhellach.

Dywedodd Sharon Perry-Phillips nad oes gan ysgolion ac yn enwedig adrannau AG lawer o arian i dalu am adnoddau addysg grefyddol a'i bod hi fel athrawes yn ddiolchgar i Mary Parry a CCYSAGauC am rannu rhywbeth y gall yr aelodau fynd yn ôl i'w hysgolion am ddim.

Yn anffodus, oherwydd problemau hawlfraint ni fydd yr adnoddau ar gael yn ehangach ac ni fyddant yn cael eu rhannu ar wefan CCYSAGauC.

Rhannodd Neeta Baicher wybodaeth hefyd am adnodd defnyddiol gan y BBC o'r enw 'India's daughter' sydd ar iPlayer ar hyn o bryd.

DRAFT

**8. Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2015**

T2 Eitem 8. Adroddiadau Estyn. Rhoddodd Vicky Thomas ddiweddariad i'r aelodau ar yr hyn y mae CYSAG Caerffili wedi'i wneud o ran y sylwadau am ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn adroddiadau Estyn. Rhannwyd cynnwys llythyr Anne Keane o Estyn ac roedd yr aelodau'n falch iawn o'r ymateb y byddai arolygwyr yn cael eu hatgoffa am y gofyniad i adrodd am ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn yr e-lythyr nesaf. Cytunodd Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC i barhau i wirio adroddiadau ac ysgrifennu eto at Anne Keane i'w diweddaru ar unrhyw gynnydd. Diolchodd Bethan James i CYSAG Caerffili am ddod â hyn i sylw. Ategwyd hyn gan Mark Campion o Estyn a gofynnodd i CCYSAGauC gysylltu ag ef yn nhymor yr hydref os oes unrhyw fylchau yn hyn o beth yn adroddiadau Estyn. Atgoffodd Rheinallt Thomas yr aelodau fod Anne Keane wedi bod yn gefnogol iawn i AG a'i bod hi'n ymddeol cyn hir. Cynigodd fod CCYSAGauC yn anfon llythyr o ddiolch i Anne am ei chefnogaeth a hefyd llythyr i gysylltu â'r Cyfarwyddwr Strategol presennol. Bydd Libby Jones yn ysgrifennu ac yn anfon y ddau lythyr.

T3 Eitem 14. Mae Phil Lord yng nghyfarfod EFTRE yn Nulyn ar hyn o bryd, ond yn ei absenoldeb dywedodd Tania ap Siôn wrth yr aelodau am y cyfraniad sylweddol y mae ef wedi'i wneud yn datblygu REQM Cymru. Mae ef yn teimlo bellach ei fod wedi cwblhau'r agwedd bwysig hon o'i waith a bod angen rôl gyswllt erbyn hyn, a fydd yn cael ei llenwi gan Libby Jones. Diolchodd Tania ap Siôn yn ffurfiol i Phil am ei gyfraniad i REQM Cymru.

**9. Gohebiaeth**

Dwy eitem sydd eisoes wedi'u trafod mewn llefydd eraill ar yr agenda. Y naill o dan Eitem 6, Diweddariadau, cysylltu â Llywodraeth Cymru ac ailsefydlu'r cyfarfod â'r Gweinidog a'r llall o dan Eitem 8, Adroddiad y Pwyllgor Gwaith o 2 Chwefror 2015, adroddiadau Estyn a'r llythyr gan Anne Keane.

Derbyniwyd llythyr gan CYSAG Wrecsam ynghylch y posibilrwydd fod Estyn yn cynnwys sylw ar addoli ar y cyd mewn adroddiadau yn y dyfodol. Dywedodd Vicky Thomas wrth yr aelodau fod hyn wedi'i gynnwys hefyd yn llythyr CYSAG Caerffili i Estyn.

Hysbysodd Mark Campion (Estyn) y cyfarfod fod cynnwys sylw am safon addoli ar y cyd yn cael ei adael i ddoethineb y swyddog sy'n adrodd yn ôl. Gallai edrych yn anghyson, fodd bynnag, os nad yw'n ymddangos fod yr arolygydd yn cydymffurfio â chanllawiau Estyn. Darllenodd Mark Campion enghraifft o Ysgol Uwchradd Casnewydd a oedd yn rhoi sylw penodol i addoli ar y cyd a soniodd am ysgolion eraill fel Ysgol Rhiwabon lle cafwyd sylwadau cadarnhaol yn yr adroddiad. Eglurodd nad oedd awydd i newid y canllawiau presennol gan Estyn. Yn ystod wythnos yr arolygiad bydd arolygwyr yn trafod pethau gydag ysgolion nad ydynt yn ymddangos yn yr adroddiad, gan na allant gynnwys popeth yr hoffent ynddo ac felly mae'n bwysig eu bod yn parhau â'r sgwrs hon. Diolchodd Gavin Craigen i Mark Campion am ei eglurhad clir o sefyllfa Estyn a chynigiwyd na fyddai diben mynd â hyn ymhellach. Cytunodd yr aelodau a oedd yn bresennol.

Bydd Libby Jones yn hysbysu CYSAG Wrecsam am yr ymateb hwn.

Soniodd rhai aelodau am yr anhawster y mae CYSAGau yn ei gael i fonitro addoli ar y cyd pan nad yw adroddiadau Estyn yn cynnwys sylwadau penodol amdano. Mae'r drafodaeth ar y pwnc hwn yn parhau yng nghyfarfodydd NAPfRE ac mewn cyfarfodydd CYSAG unigol a bydd cyflwyniad ar fonitro addoli ar y cyd a'i ddarpariaeth mewn ysgolion yn rhan o raglen CCYSAGauC yn y cyfarfod nesaf.

Anfonodd Christine Abbas ddymuniadau Blwyddyn Newydd i aelodau CCYSAGauC gan y gymuned Baha'i yng Nghymru. (derbyniwyd yr e-bost hwn yn hwyr oherwydd problemau gyda mynediad i'r rhyngrwyd ar y pryd)

DRAFT

**10. U.F.A.**

Cynigiodd Chris Mann o CYSAG Abertawe daflenni o'r Canolfannau Bwdhaeth yn Abertawe a Llandudno. Mae'r ddwy ganolfan yn croesawu ymweliadau gan ysgolion. Gwahoddwyd yr aelodau i fynd â thaflen yn ôl i'w CYSAG eu hunain os oeddent yn dymuno hynny. Diolchodd Chris Mann i CCYSAGauC am dynnu sylw at y Ganolfan ac am gyfarfod diddorol.

**11. Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 25 Mehefin 2015, Sir y Fflint yn cynnwys AGM

**12.** Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol: 25 Tachwedd 2015 (Blaenau Gwent)

Diolchodd Tania ap Siôn i bawb a oedd wedi bod â rhan mewn trefnu a rhedeg y cyfarfod, gyda diolch arbennig i Glerc CYSAG Mary Mills, yr Arweinydd Systemau Jen Malcolm, y tîm cyfieithu, a'r staff yn yr Orendy ym Margam.

DRAFT